**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**National Assembly for Wales**
Constitutional and Legislative Affairs Committee

Rebecca Evans AC
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

11 Gorffennaf 2019

Annwyl Rebecca

**Rheoliadau Grwpiau Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd (Ymadael â'r UE) 2019**

Gwnaethom drafod datganiad ysgrifenedig Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd o dan Reol Sefydlog 30C ar gyfer y rheoliadau a enwir uchod yn ein cyfarfod ar 1 Gorffennaf 2019.

Rwy'n ysgrifennu i godi pryderon am y dull gweithredu a fabwysiadwyd ar gyfer y rheoliadau hyn.

Mae'r Memorandwm Esboniadol a baratowyd gan Lywodraeth y DU i fynd gyda hwy yn nodi:

> Public authorities can be devolved in nature and therefore we have consulted with the Scottish and Welsh Governments during the development of this instrument. Provisions have been included so that an application by a devolved Welsh authority (as defined in section 157A of the Government of Wales Act 2006 c. 32) or a Scottish public authority (as defined in section 126(1) of the Scotland Act 1998 c. 46) must not be approved or rejected by the Secretary of State without agreement from the devolved Ministers (the Scottish or the Welsh Ministers, as appropriate). This will ensure that devolved matters are fully respected in both Scotland and Wales.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddMCD@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddMCD
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCLA@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCLA
0300 200 6565

Fodd bynnag, yn groes i'r hyn a ddywedir yn y Memorandwm Esboniadol, yn rhinwedd rheoliad 6(1)(e) o'r Rheoliadau, lle nad yw Gweinidogion Cymru yn cytuno â phenderfyniad yr Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â chais gan awdurdod cyhoeddus sydd am ymaelodi â Grŵp Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd, rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol wrthod y cais.

Ymddengys felly fod Llywodraeth Cymru wedi cymryd safbwynt lle mae o bosibl yn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol wrthod cais gan awdurdodau cyhoeddus Cymru, sef un y byddai wedi gallu ei gytuno ei hun pe bai wedi gwneud ei rheoliadau ei hun gan ddefnyddio'r pwerau sydd ar gael i Lywodraeth Cymru o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

Yn ein barn ni, yn ogystal â bod yn anodd ei ddeall nid yw hyn yn gydnaws â pharagraff 8 o'r Cytundeb Rhynglywodraethol ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin sy'n cyfeirio at ddefnyddio pwerau ar gyfer effeithlonrwydd gweinyddol.

Mae hefyd yn aneglur pam nad yw Llywodraeth Cymru wedi gwneud ei rheoliadau ei hun pan ymddengys fod ei gweithgarwch deddfwriaethol wedi arafu o ran gwneud is-ddeddfwriaeth.

Wrth inni fynegi ein barn, rydym hefyd yn nodi ac yn croesawu'r ffaith bod Tŷ'r Cyffredin, yn ei Seithfed Adroddiad ar Hugain o'r Sesiwn 2017-19, wedi dweud am yr offerynnau:

> 2.5 It is not clear why the Secretary of State has to be in agreement with the devolved Minister in order for an application from a devolved public authority to be granted and we therefore believe the House would benefit from further scrutiny of this instrument.
>
> 2.6 **We therefore recommend that the appropriate procedure for the instrument is for a draft of it to be laid before, and approved by a resolution of, each House of Parliament before it is made (i.e. the affirmative procedure) on the ground that it is of political importance.**

Gan hynny, byddem yn croesawu eglurhad brys ynghylch pam mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu peidio â gwneud ei rheoliadau ei hun yn y maes polisi hwn.

Anfonir copïau o'r llythyr hwn at y Prif Weinidog a'r Cwnsler Cyffredinol, yn ogystal â Chadeirydd Pwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin a Chadeirydd Pwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi.

Yn gywir

**Mick Antoniw AC**
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English